www.capelytraeth.com

Rhif 148 **Ebrill 2024**

07	Parch Hugh Pritchard	Gwyneth	Gwenno Parry
14	Gweinidog	Gwen	Jên Glyn
21	Dr Eryl Wyn Davies	Catrin	Elinor Jones
28	Parch Geraint Roberts	Geraint	Adran Saesneg

02	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
09	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
14	Te bach 3.30 a chroeso i wrando ar blant y Clwb Sul yn perfformio.
16	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
23	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
30	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30

GAIR O DDIOLCH A minnau wedi cyrraedd fy nhrigain oed (60) ddechrau Mawrth, carwn ddiolch o waelod calon i bawb ohonoch am bob cyfarchiad, caredigrwydd a haelioni. Dim ond ond diolch yw fy lle. Rydech chi'n werth y byd! *Iwan*

Cofion Dyma hi'n fis Ebrill a chyfle unwaith eto i gofio atoch yn gynnes iawn.

Gyda thristwch y clywsom am brofedigaeth lem Gwenno George a Luke Nicholas. Bu farw eu mab annwyl wythnos oed, Emrys Arthur, yn yr ysbyty yng Nghaerdydd. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Gwenno a Luke ac at nain a thaid Emrys sef Philip a Siân George a'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth.
Ar ôl cyfnod yn yr ysbyty mae Glenys Owen bellach yng Nghartref Bryn Meddyg yn Llanaelhaearn. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Glenys a hefyd at Bronwen Naish sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Rhôdd Garedig Gan na lwyddodd Margaret Carrington Rees i fynychu'r Te Crempog a drefnwyd ar gyfer codi arian i gronfa cynnal a chadw'r adeilad, rhoddodd gyfraniad sylweddol tuag at yr achos. Rhoddodd y siec er cof am ei Mam sef Mrs Carrington Rees, Gardd yr Esgob, a fu yn aelod ffyddlon o Gapel Seion fel ag yr oedd. Rydym yn hynod ddiolchgar i Margaret am ei haelioni.

Drws Agored Cofiwch bod croeso mawr yn eich aros bob bore Mawrth yn y Festri. Dewch fore Mawrth nesaf a dewch â ffrind efo chi.

Banc Bwyd Diolch am eich cyfraniadau arferol a diolch i Elspeth am eu danfon i Bwllheli.

Cylch Trafod Diolch i Catrin Codd am arwain cyfarfod olaf y tymor. Cyfeillgarwch oedd y testun a chafwyd trafodaeth dda fel arfer. Diolch i bawb a fu yn arwain yn ystod y tymor ac edrychwn ymlaen gyfarfod eto yn yr Hydref.

Swper y Gymdeithas Cawsom noson ardderchog i gloi tymor y Gymdeithas Ddiwylliadol. Roedd pawb wedi eu plesio efo bwyd blasus Yr Afr yn Glandwyfach a chyfraniad Meinir Gwilym ar y diwedd yn werth chweil. Diolch i Mair am drefnu y noson ac am bob trefniant arall yn ystod y tymor.

Wythnos Cymorth Cristnogol 12 - 19 Mai

Bydd Gwasanaeth Undebol Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yn cael ei gynnal dan ofal ein Gweinidog yng Nghapel y Traeth am 10.00 ar19 Mai

Bydd Te Mefus ar 15 Mai a'r bwriad arall ydy'r cais ar inni roi pris dau ginio o'r neilltu er mwyn codi arian i liniaru peth o'r newyn sy'n llethu plant ac oedolion Palesteina – Mwy am hyn yn ein rhifyn nesaf. *I. Ll. Jones Cadeirydd*

Dathliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd

Fel y gwelwch o'r poster mae'r dyddiad ar garreg y drws erbyn hyn ac felly mae'r amser wedi dod i gasglu'r blychau bach gwyn er mwyn anfon yr arian i Drysorydd y Gogledd erbyn 22 Ebrill .

Fyddech chi mor garedig felly â dod â'r blychau gwyn i'r Te a Thost ar 9 Ebrill neu fan bellaf ar 16 Ebrill.

Diolch yn fawr iawn. *Eirwen*

RHAG-HYSBYSIAD

Bwriedir trefnu taith i gapel Soar-y-Mynydd ger Tregaron **dydd Sul, Gorffennaf 21 eleni.** Buasai'n rhaid cychwyn o Gricieth tua 9/9.30 o'r gloch y bore er mwyn rhoi digon o amser i gymryd hoe neu ddwy ar y ffordd ac i fwyta cinio ysgafn (a byddai'n rhaid i bawb ddod â phecyn bwyd efo nhw). Mi fydd yr oedfa yn Soar-y-Mynydd yn dechrau am 2 o'r gloch, a'r oedfa o dan fy ngofal i (rhag i neb ofyn!) Y bwriad wedyn yw cael pryd o fwyd mewn gwesty ar y ffordd adref yn rhywle. Os nad oes neb ohonoch wedi bod yn Soar-y-Mynydd, mae hwn yn cael ei adnabod fel y capel mwyaf diarffordd yng Nghymru, ac, os ca'i siarad yn bersonol, yn un o'r llecynnau hyfrytaf.

Ar hyn o bryd, wrth gwrs, fedrwn i ddim dweud beth fydd cost y daith gan y bydd hynny'n dibynnu ar y nifer a ddaw.

Carwn pe baech yn rhoi gwybod naill ai i mi neu un o'r Swyddogion erbyn **diwedd Ebrill eleni** os ydych am ddod er mwyn gwneud y trefniadau mewn da bryd, oherwydd mi fydd angen gwneud hynny. Diolch *Iwan*

Pwyllgor Dathliad Cenhadol y Gogledd

Dathliad Cenhadol

Capel Bethesda, Yr Wyddgrug

(CH7 1 NZ)

2 Mai 2024

2.00 Y Parch Nerys Griffiths, Caernarfon.

5.00 Y Parch Ddr. Alun Morton Thomas, Llanfairpwll.

Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd

Am linc Zoom: Gwenith Roberts 01352 756038 neu

Eirian Roberts 01678 520065

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Pan ddechreuais i weinidogaethu yn syth o'r Coleg yn 1987, a byw yn ardal wledig y Brithdir ger Dolgellau, cefais wybod pan ddoi mis Ebrill y byddai'r cynulleidfaoedd yn hanneru o ran rhif. A dyna ddigwyddodd yn yr Ebrill cyntaf hwnnw – lle roedd cynulleidfa arferol, dyweder, o hanner cant (ac oedd, mi roedd 'na hynny yn rhai o'r eglwysi gwledig hynny yr adeg honno), gwelid gostyngiad i'r hanner am y mis hwn yn flynyddol. Roedd yn gryn dipyn o ergyd i'r system i mi am y tro cyntaf! Ond dyna fo, buan iawn y dois i sylweddoli beth oedd prysurdeb a phwysigrwydd Tymor yr Ŵyn i'r amaethwyr, fel pob tymor arall yn y byd amaethyddol.

Fe'n hatgoffir yn gyson ein bod ni i ofalu am y cread a'i breswylwyr, ac y mae'n werth i bawb ohonom sylwi ar Salm 8, a'r hyn y mae'n ddweud am gyfrifoldeb a braint y Teulu Dynol: "Rhoist iddo awdurdod ar waith dy ddwylo, a gosod popeth dan ei draed: defaid ac ychen i gyd, yr anifeiliad gwyllt ion hefyd, adar y nefoedd, a physgod y môr, a phopeth sy'n tramwyo llwybrau'r dyfroedd…." (adnodau 6-8)

Yn Ebrill eleni eto, nac anghofiwn na dibrisio gwaith yr amaethwr, oherwydd fe ddylai pawb ohonom ddweud yr adnod gyntaf yn Salm 8: "Arglwydd ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear." *Iwan*

PRYNHAWN SUL 14 EBRILL

3.30 O'R GLOCH

TE BACH YN Y FESTRI

Cyfle i wrando ar blant y Clwb Sul yn perfformio fel ag y gwnaethant yn Eisteddfod yr Urdd.

Croeso cynnes iawn i bawb.

Clwb Sul Yn ystod mis Mawrth buom yn sôn am Dewi Sant. Buom yn gwneud Cennin Pedr allan o gerrig lan y môr a gwneud plac bach personol o'r pethau bychain oeddem ni yn addo eu gwneud. Cawsom hefyd Stori'r Pasg.

Un bore Sul cawsom hwyl wrth roi syrpreis i Mr Llewelyn. Roeddem wedi clywed ei fod wedi cael penblwydd arbennig ac roedd Anti Elin wedi gwneud cacen iddo. Pan ddaeth i'n gweld ar ôl y bregeth cawsom roi golau ar y gannwyll a chanu Penblwydd Hapus iddo. Cawsom ni gacen fach hefyd mmmmmm neis iawn!

Mae nifer o'r plant wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn cael cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Bu llawer o lwyddiant hefyd yn y Steddfod Cylch a mynd ymlaen i'r Steddfod Sir. Diolch i Bethan am roi llawer o'i hamser i hyfforddi'r plant ac i'r rhieni am sicrhau fod y plant yn dod i bob ymarfer.

Rhowch y dyddiad yma yn eich dyddiadur:

PRYNHAWN SUL 14 EBRILL am 3.30 O'R GLOCH BYDD TE BACH YN Y FESTRI A CHYFLE I WRANDO AR BLANT Y CLWB SUL YN PERFFORMIO FEL AG Y GWNAETHANT YN EISTEDDFOD YR URDD.

Croeso cynnes iawn i bawb.